



**Canllawiau ar
Warediadau Dangosol
ar gyfer y Panel Addasrwydd i Ymarfer
a
Gorchmynion Interim
a osodir gan y Panel Gorchmynion Interim
a'r Panel Addasrwydd i Ymarfer**

Ebrill 2017

RHAN I

GWAREDIADAU DANGOSOL AR GYFER PANELI ADDASRWYDD I YMARFER

1. EGWYDDORION CYFFREDINOL YNGHYLCH GWAREDIADAU	
Diben gwarediad	5
Y budd i'r cyhoedd	5
Cymesuredd a Baich y Prawf	6
Dull	6
Rhesymau	6
Ysgrifennu rhesymau	7
Achosion a ystyrir gan banel Addasrwydd i Ymarfer	7
Ystyried collfarnau a chanfyddiadau ffeithiau gan reoleiddwyr eraill	7
2. FFACTORAU LLINIAROL A GWAETHYGOL	
Ffactorau lliniarol	8
Ffactorau gwaethygol	8
Ystyried geirdaon a thystebau	9
Mynegiadau o edifeirwch ac ymddiheuriad	10
3. GWAREDIADAU	
Dileu drwy Gytundeb	13
Ymgymeriadau	13
Rhybudd	13
Gorchymyn Cofrestru Amodol	14
Gorchymyn Atal Dros Dro	15
Gorchymyn Dileu	16
4. GWRANDAWIADAU ADOLYGU – ADOLYGU, AMRYWIO NEU DDIRYMU GORCHMYNION	17
5. ENGHREIFFTIAU O AMHARIAD YN BERTHNASOL I WAREDU	
Achosion o natur rywiol	17
Troseddwyr rhyw a throseddau'n ymwneud â delweddau anwedus o blant	17
Anonestrwydd	18

Methu â darparu lefel dderbyniol o ofal	19
Enghreifftiau eraill o fanteisio ar swydd/ffydd neu ymyrryd â hawliau defnyddwyr gwasanaethau	19
Enghreifftiau difrifol eraill o fanteisio ar statws breintiedig gweithwyr proffesiynol cofrestredig	19
Amhariad wedi'i achosi gan ddiffyg cymhwysedd	19
Ymddygiad sy'n anghydnaws yn ei hanfod â chofrestriad proffesiynol	20

RHAN II

GORCHMYNION INTERIM – A OSODIR GAN Y PANEL GORCHMYNION INTERIM A'R PANEL ADDASRWYDD I YMARFER

ADRAN 1

Cyflwyniad	21
Gorchmynion Atal Dros Dro Interim	21
Gorchymyn Cofrestru Amodol Interim	21
Y profion cyfreithiol i'w cymhwysu	22
Y budd i'r cyhoedd	22
Tegwch	22
Cymesuredd	23

ADRAN 2

Egwyddorion cyffredinol i'w hystyried	23
Enghreifftiau o amhariad honedig i'w hystyried	23
Penderfyniad	24
Rhesymau	24

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r dogfennau cyfreithiol canlynol sy'n rheoleiddio proses gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru:

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf);**

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted>

[Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru \(Ehangu Ystyr Gweithiwr Gofal Cymdeithasol\) 2016 – Mehefin 2016](#)

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16524>

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016 – Mehefin 2016

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16521>

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016 – Mehefin [2016](#)

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16523>

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016 – [Mehefin 2016](#)

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16522>

Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) [2016 – Mehefin](#)

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=17273>

[Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru \(Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol\) \(Cofrestru\) 2016 – Mehefin 2016](#)

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16525>

Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at weithwyr gofal cymdeithasol, sy'n ymwneud â gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol, rheolwyr gofal cymdeithasol a myfyrwyr gwaith cymdeithasol.

RHAN I:

CANLLAWIAU AR WAREDIADAU DANGOSOL AR GYFER Y PANEL ADDASRWYDD I YMARFER

1. EGWYDDORION CYFFREDINOL YNGHYLCH GWAREDIADAU

1.1 Mae proses dri cham ynghlwm wrth rôl panel Addasrwydd i Ymarfer wrth iddo ddod i benderfyniad ar warediad.

O dan Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiaadau Addasrwydd i Ymarfer) 2017, bydd panel:

- Cam 1: yn canfod ffeithiau
- Cam 2a: yn dyfarnu a yw un o'r 6 sail ar gyfer amhariad wedi'i brofi, e.e., camymddwyn, iechyd.
- Cam 2b: yn dyfarnu a oes amhariad presennol ar addasrwydd i ymarfer yn bodoli
- Cam 3: os oes amhariad presennol yn bodoli, pa warediad y dylid ei osod, os o gwbl

Diben gwarediad

1.2 Nid cosbi yw prif ddiben gwarediad, ond amddiffyn y cyhoedd a'r budd ehangach i'r cyhoedd, er mai cosb, o bosibl, fydd ei effaith.

Canolbwyntiwch ar 'y presennol', nid ar yr hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol.

Y budd i'r cyhoedd

1.3 Mae awdurdod barnwrol clir fod y budd i'r cyhoedd yn cynnwys:

- (a) Amddiffyn aelodau'r cyhoedd;
- (b) Cynnal hyder y cyhoedd mewn gweithwyr gofal cymdeithasol ac yn y proffesiwn yn ei gyfanrwydd;
- (c) Datgan a chynnal safonau ymddygiad a chymhwysedd priodol.

1.4 Gellid ateb budd y cyhoedd hefyd trwy ychwanegu amodau yn ymwneud â dychweliad y person cofrestredig i'r gwaith os nad yw'n meddu ar sgiliau, cymwyseddau neu wybodaeth benodol.

Cymesuredd a baich a safon y prawf

- 1.5. (1) Gofal Cymdeithasol Cymru fydd yn gyfrifol am faich y prawf mewn achosion gerbron y panel Addasrwydd i Ymarfer.
- (2) Lle y bo anghydfod ynghylch y ffeithiau, bydd y panel yn penderfynu ar y ffeithiau yn unol â'r safon mewn achosion sifil, yn unol â phwysau tebygolrwydd. (Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer), rheol 10). Fodd bynnag, lle y bo'r panel yn ystyried mater amhariad (yn y gorffennol neu yn bresennol) neu lle y bo'n ystyried gwarediadau, nid oes baich na safon y prawf.
- 1.6 Cyfeiriodd Llys Hawliau Dynol Ewrop yn achos Soering v United Kingdom [1989] 11 EHRR 439 at gymesuredd fel a ganlyn, *“the search for a fair balance between the demands of the general interest of the community and the requirements of protection of the individual's fundamental rights”*.
- 1.7 Wrth benderfynu ar y gwarediad priodol, dylai'r panel gymhwyso egwyddor cymesuredd, gan bwysu a mesur budd y cyhoedd (fel y disgrifir uchod) yn erbyn budd y person cofrestredig.
- Yn ogystal, bydd angen i'r panel ystyried unrhyw ffactorau lliniarol yn gysylltiedig â difrifoldeb yr amhariad dan sylw. Mae'r graddau y dylai ffactorau lliniarol ddylanwadu ar benderfyniad yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol yn yr achos ac fe'i gadewir i ddisgresiwn y panel.
- Mae Adran 3 y Canllawiau hyn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ystyried ffactorau lliniarol a gwaethgol, geirdaon a thystebau, a mynegiadau o edifeirwch.
- 1.8 Wrth gyhoeddi rhesymau, rhaid i'r panel sicrhau eu bod yn dangos yn glir i gymesuredd gael ei ystyried; gweler Dull, isod.

Dull

- 1.9 Dylai panel fynd at y dasg o benderfynu pa warediad i'w osod yn holl amgylchiadau'r achos penodol trwy ddechrau gyda'r gwarediad lleiaf cyfyngol a gweithio i fyny o'r fan honno.
- Ym mhob cam, dylai panel ddatgan yn y rhesymau y cytunont arnynt pam nad oedd gwarediad penodol yn briodol nac yn ddigonol i amddiffyn y cyhoedd a/neu pam nad oedd er budd y cyhoedd, ac yna symud ymlaen i'r nesaf (gweler 'Rhesymau' isod).
- Dylai panel barhau yn yr un modd hyd nes bydd yn dod at y gwarediad sy'n briodol ym marn y panel. I wneud yn siwr bod ei benderfyniad yn gwneud synnwyr, dylai'r panel bob amser ystyried y gwarediad mwyaf difrifol sydd nesaf, a pha un ai a fyddai'n gymesur neu'n amghymesur o gymharu â'r gwarediad a ddewisodd y panel i ddechrau.

Rhesymau

- 1.10 Rhaid i banel roi rhesymau llawn dros osod gwarediad ym mhob achos. Rhaid i'r rhesymau fod yn ddigonol a chaniatáu i berson cofrestredig, neu rywun arall sy'n eu darllen, ddeall pam dewiswyd gwarediad penodol yn hytrach na gwarediadau eraill a oedd ar gael (gweler 'Dull' uchod).

- 1.11 Dylai'r rhesymau ddangos pam yr ystyrir bod penderfyniad a wnaed gan banel yn gymesur yn yr holl amgylchiadau. Trwy gyflwyno rhesymau digonol a dealladwy, bydd y person cofrestredig, Gofal Cymdeithasol Cymru, y cyhoedd, y rhai a roddodd dystiolaeth i banel a Llywodraeth Cymru yn gallu gweld a deall pam a sut y daethpwyd i benderfyniad penodol.
- 1.12 Gan fod hawl gan y person cofrestredig i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Safonau Gofal), bydd esboniad llawn o'r rhesymau dros y penderfyniad yn cynorthwyo'r person cofrestredig i benderfynu pa un ai i arfer ei hawl i apelio ai peidio ac, os bydd yn arfer yr hawl honno, bydd yn helpu'r Tribiwnlys wrth ddyfarnu ar unrhyw apêl o'r fath.

Ysgrifennu rhesymau

- 1.13 Dylai'r rhesymau dros benderfyniad panel gynnwys:
- sail ffeithiol y penderfyniad;
 - sail gyfreithiol y penderfyniad, (gyda chyingor ychwanegol gan y Cynghorydd Cyfreithiol, os bydd angen);
 - y casgliadau y daethpwyd iddynt ar y prif faterion dadleuol pwysig – yn datgelu sut y cafodd unrhyw gwestiwn o gyfraith neu o ffaith ei ddatrys;
 - cadarnhad bod panel wedi derbyn cyngor cyfreithiol a roddwyd iddo gan y Cynghorydd Cyfreithiol, neu gadarnhad nad yw wedi derbyn y cyfryw gyngor;
 - casgliadau panel ynghylch y cyflwyniadau a wnaed iddo gan y partïon neu eu cynrychiolwyr, gan gynnwys ffactorau lliniarol;
 - casgliadau'r panel ynghylch unrhyw dystiolaeth a roddwyd gan dystion neu dystiolaeth gymeradwyol a gyflwynwyd;
 - y rhesymau dros unrhyw warediad a osodwyd a pham nad osodwyd unrhyw warediadau eraill.

Arweiniad ar achosion a ystyriwyd gan banel Addasrwydd i Ymarfer

- 1.14 Bydd panel Addasrwydd i Ymarfer sy'n cyfarfod yn gyhoeddus yn ystyried cyhuddiadau yn erbyn y person cofrestredig ac yn penderfynu a oes amhariad ar ymarfer y person cofrestredig.

Caiff panel Addasrwydd i Ymarfer gyfarfod yn breifat os yw'n bosibl bod yr amhariad oherwydd iechyd corfforol neu iechyd meddwl andwyol y person cofrestredig a bydd yn ystyried tystiolaeth feddygol i sefydlu a achoswyd yr amhariad gan iechyd corfforol neu iechyd meddwl andwyol y person cofrestredig neu a oedd hynny wedi cyfrannu'n sylweddol at yr amhariad.

Arweiniad ar ystyried achosion collfarnau a chanfyddiadau ffeithiau gan reoleiddwyr eraill

- 1.15 Oherwydd prif ddiben gwarediad yw amddiffyn y cyhoedd a budd ehangach y cyhoedd, yn ei ystyriaeth, ni ddylai panel gyfrif am y posibilrwydd y gallai person cofrestredig eisoes fod wedi dioddef yn bersonol neu'n broffesiynol oherwydd ei amhariad mewn achos troseddol blaenorol, achos blaenorol corff rheoleiddiol arall neu achos disgyblu gan gyflogwr.
- 1.16 Dylai panel gofio nad yw dedfryd neu gosb a osodwyd yn flaenorol o reidrwydd yn ganllaw pendant i ddifrifoldeb y drosedd. Mae'n bosibl y bu amgylchiadau a wnaeth i'r llys neu'r corff rheoleiddiol ddangos trugaredd. Er enghraifft, er gwaethaf canllawiau dedfrydu, mae dulliau barnwyr o ddedfrydu yn amrywio. Hefyd, mae gwahanol bwerau

dedfrydu ar gael i'r llysoedd. Yn yr un modd, gall ystod y cosbau a'r ffordd y'u cymhwysir amrywio'n helaeth rhwng cyrff rheoleiddiol.

- 1.17 Rôl panel yw cydbwysu natur a difrifoldeb y drosedd/y troseddau, ffactorau lliniarol megis edifeirwch a dirnadaeth, a'r cyfnod a aeth heibio ers y drosedd (gweler 'adran 2' isod) a'u dylanwad ar addasrwydd y person cofrestredig i ymarfer fel gweithiwr gofal cymdeithasol, â'r angen am osod gwarediad a'i ganlyniadau ar allu ac addasrwydd y person cofrestredig i ymarfer.

2. FFACTORAU LLINIAROL A GWAETHYGOL

- 2.1 Dylai panel bwysu a mesur y ffactorau lliniarol yn erbyn y ffactorau gwaethybol sy'n berthnasol ym mhob achos. Gall y person cofrestredig godi neu gyfeirio at ffactorau lliniarol ar unrhyw adeg yn ystod yr achos.

Ffactorau lliniarol

- 2.2 Mae'r canlynol yn rhestr o ffactorau lliniarol posibl, ond dylai panel gofio nad yw'r rhestr hon yn derfynol:

- y cyfnod a aeth heibio ers y digwyddiad/digwyddiadau ac unrhyw ymarfer da yn y cyfamser (gan ddarparu tystiolaeth o'r ymarfer da hwnnw);
- cydweithredu ag ymchwiliad Gofal Cymdeithasol Cymru;
- cydymffurfio ag unrhyw asesiad neu amodau blaenorol;
- cyfaddef y ffeithiau honedig yn gynnar;
- dirnadaeth: gellir ei diffinio fel y disgwyliad y bydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn gallu camu yn ôl a derbyn, o edrych yn ôl, y dylai fod wedi ymddwyn yn wahanol a bod disgwyl y bydd yn cymryd camau i atal hynny rhag digwydd eto.
- digwyddodd yr ymddygiad unwaith yn unig ac nid oedd yn fwriadol nac wedi'i ragfwriadu;
- mynegiad diffuant o edifeirwch/ymddiheuriad;
- gweithredu o dan orfodaeth;
- hanes da cyn hynny;
- cymeriad a hanes blaenorol y person cofrestredig;
- tystiolaeth bod camau cywirol/adferol wedi'u cymryd;
- geirdaon a thystebau perthnasol a phriodol;
- yr amgylchiadau a arweiniodd at y digwyddiad/digwyddiadau;
- yr effaith ar y dioddefwr – gan gynnwys niwed a niwed posibl;
- tystiolaeth na fyddai'r ymddygiad wedi achosi niwed uniongyrchol neu anuniongyrchol i unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau;
- digwyddodd yr amhariad y tu allan i'r gwaith ac nid wrth gyflawni dyletswyddau proffesiynol y person cofrestredig;
- nid oedd unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau gyda'r person cofrestredig ar adeg yr amhariad;
- a ofynnodd y cyflogwr i'r person cofrestredig weithredu neu gyflawni dyletswyddau penodol i gyrraedd targedau.

Pan fo panel yn cael gwybod am ffactorau lliniarol, dylai ystyried perthnasedd y ffactorau hynny a'r pwys i'w roi iddynt yn unol â thelerau Adran 3 (Gwarediadau) ym mhob achos.

Ffactorau gwaethybol

2.3 Mae'r canlynol yn rhestr o ffactorau gwaethgol posibl, ond dylai panel gofio nad yw'r rhestr hon yn derfynol:

- anonestrwydd;
- manteisio ar ffydd;
- celu camwedd;
- gweithredoedd rhagfwriadol;
- diffyg dirnadaeth: gellir diffinio dirnadaeth fel y disgwyliad y bydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn gallu camu yn ôl a derbyn, o edrych yn ôl, y dylai fod wedi ymddwyn yn wahanol a bod disgwyl y bydd yn cymryd camau i atal hynny rhag digwydd eto;
- diffyg edifeirwch;
- y risg sydd wedi'i pheri i achwynydd, dioddefwr/ddioddefwyr a thystion, a/neu'r effaith arnynt;
- methu â chydweithredu ag ymchwiliad Gofal Cymdeithasol Cymru;
- yr amgylchiadau yn arwain at y digwyddiad/digwyddiadau;
- diystyrwch difrifol tuag at Gôd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol, Gofal Cymdeithasol Cymru;
- troseddu yn sgil canfyddiadau blaenorol o gamymddwyn/amhariad;
- collfarnau blaenorol;
- digwyddodd yr amhariad yn y gwaith neu yn ystod dyletswyddau proffesiynol y person cofrestredig;
- roedd unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau gyda'r person cofrestredig ar adeg ym amhariad.

Pan fo panel yn cael gwybod am ffactorau gwaethgol, dylai ystyried perthnasedd y ffactorau hynny a'r pwys i'w roi iddynt yn unol â thelerau Adran 3, ym mhob achos.

Arweiniad ar ystyried geirdaon a thystebau

2.4 Caiff y person cofrestredig gyflwyno geirdaon a thystebau. Wrth ystyried y rhain, dylai panel archwilio ac ystyried y ffactorau canlynol:

- pa mor ddiweddar yw'r rhain;
- "arbenigedd" yr awdur;
- union lefel wybodaeth yr awdur am y person cofrestredig a, lle y bo'n berthnasol, am ymarfer diweddar y person cofrestredig;
- pa un ai a yw'r awdur yn ymwybodol o'r honiadau;
- pa un ai a yw'r awdur yn ymwybodol y bydd ei lythyr yn cael ei roi gerbron panel fel tystiolaeth o ffactorau lliniarol;
- pa un ai a yw'r geirda/tysteb yn ddilys;
- pa un ai a yw wedi'i lofnodi a'i ddyddio.

2.5 Rhaid bod panel yn fodlon â dilysrwydd dogfen cyn y gellir ei derbyn a dylai'r rhestr uchod gynorthwyo'r panel â'r dasg hon.

2.6 Caiff person cofrestredig gyflwyno geirdaon a thystebau ynghylch ei statws yn y gymuned neu'r proffesiwn. Mae angen pwysu a mesur y rhain yn briodol yn erbyn natur y digwyddiad. Bydd nifer, safon a rhychwant geirdaon a thystebau yn amrywio o achos i achos. Ni fydd hyn o reidrwydd yn dibynnu ar statws person cofrestredig.

Gallai fod rhesymau diwylliannol dros beidio â gofyn am eirdaon neu dystebau. Yn ogystal, gallai caffael geirdaon a thystebau beri anhawster i weithwyr gofal cymdeithasol

cymwys sydd newydd gyrraedd o dramor, neu weithwyr gofal cymdeithasol sydd newydd gymhwyso a/neu newydd eu penodi.

2.7 Ni fydd diffyg geirdaon neu dystebau o reidrwydd yn cyfrif yn erbyn person cofrestredig.

2.8 Dylid ystyried yr holl ffactorau a amlinellir uchod wrth edrych ar eirdaon a thystebau.

Mynegiadau o edifeirwch ac ymddiheuriad

2.9 Mae gan y proffesiwn gofal cymdeithasol a'r cyhoedd nifer o ddisgwyliadau, gan gynnwys y dylai unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gael eu hamddiffyn rhag i ddiwyddiadau tebyg ddiwydd eto, a dylai gweithwyr gofal cymdeithasol gymryd camau cadarnhaol i gymryd cyfrifoldeb a dysgu o'u camgymeriadau, neu pan fydd pethau'n mynd o le (Gweithredu mewn ffordd agored a gonest pan fydd pethau yn mynd o le: gonestrwydd a dyletswydd broffesiynol¹).

2.10 Mae dirnadaeth y person cofrestredig yn ffactor pwysig. Dylai person cofrestredig allu cyfaddef ei fod wedi derbyn, o edrych yn ôl, y dylai fod wedi ymddwyn neu weithredu'n wahanol, a bod disgwyl y bydd yn cymryd camau i atal hynny rhag digwydd eto.

Gall fod gwahaniaethau diwylliannol yn y ffordd y caiff y ddirnadaeth honno ei mynegi, er enghraifft sut y caiff ymddiheuriad neu fynegiad o edifeirwch ei ffurfio a'i gyflwyno, a'r broses gyfathrebu.

2.11 Mae astudiaethau cyfathrebu rhyngddiwylliannol yn dangos bod amrywiadau sylweddol yn y ffordd y mae unigolion o wahanol ddiwylliannau a grwpiau iaith yn defnyddio iaith i lunio a dehongli negeseuon. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ddefnyddio ail iaith, lle y gallai siaradwyr ddefnyddio confensiwn eu mamiaith i ffurfio a strwythuro brawddegau, gan gyfieithu wrth iddynt siarad yn aml, a gallai hyn gael ei adlewyrchu yn yr oslef a ddefnyddir hefyd. O ganlyniad, efallai na fydd arferion ieithyddol, cynildeb, neu naws yr ail iaith yn cael eu hadlewyrchu.

2.12 Yn ogystal, gallai fod gwahaniaethau yn y ffordd y mae unigolion yn defnyddio arwyddion dieiriau i gyfleu neges, gan gynnwys cyswllt llygaid, ystumiau, edrychiadau a chyffwrdd. Gallai'r materion hyn fod yn berthnasol i unigolion â nam ar y synhwyrau hefyd. Mae ymwybyddiaeth o'r materion hyn a sensitifwydd tuag atynt yn bwysig wrth benderfynu ar y canlynol:

- sut mae person cofrestredig yn fframio'i ddirnadaeth;
- sut mae person cofrestredig yn cynnig ymddiheuriad;
- ymarweddiad ac agwedd y person cofrestredig yn ystod y gwrandawriad.

2.13 Y prif ffactor yw cydnabyddiaeth gan y person cofrestredig bod angen cymryd camau i unioni'r methiannau ac nid y ffurf bosibl o fynegi hyn yn unig sy'n berthnasol.

2.14 Dylai panel ystyried y dystiolaeth a gyflwynir ger ei fron yn unig, er enghraifft tystebau. Ni ddylai panel ddod i unrhyw gasgliadau andwyol yn sgil diffyg tystiolaeth o'r fath, oherwydd:

- gallai fod rhesymau diwylliannol neu resymau eraill pam na fyddai person cofrestredig yn ceisio tystebau gan gydweithwyr neu unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau; a

¹ Cyngor Gofal Cymru, Canllawiau esboniadol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol sydd wedi cofrestru gyda Cyngor Gofal Cymru

byddai casgliadau o'r fath yn debygol o ddod o dan ddylanwad rhagdybiaethau ynghylch y math o eirdaon a allai fod wedi'u cynhyrchu, rhagdybiaethau nas profwyd.

- 2.15 Os bydd amhariad person cofrestredig yn dangos bod y person, yn y bôn, yn anaddas i'w gofrestru'n weithiwr gofal cymdeithasol, ni all unrhyw edifeirwch neu ymddiheuriad – nac yn wir rinweddau personol cadarnhaol eraill, "liniaru" difrifoldeb y casgliad hwnnw a'i effaith ar gofrestru.

Bydd tystiolaeth ddarbwyllol o adferiad ac ymrwymiad credadwy i safonau uchel yn y dyfodol yn uniongyrchol berthnasol i gwestiwn addasrwydd i ymarfer, er clod i'r person cofrestredig, hyd yn oed os gallai esgeulustra fod wedi digwydd yn y gorffennol, efallai esgeulustra difrifol.

- 2.16 Gall tystiolaeth o amgylchiadau lliniarol yn gysylltiedig ag amhariad a brofwyd fod yn ddefnyddiol wrth lunio darlun o sut y mae person cofrestredig wedi ymateb i straen mewn bywyd ac mewn ymarfer proffesiynol, a allai fod yn arwyddocaol mewn perthynas â mater yr amhariad. Gallai tystiolaeth fod esgeulustra wedi bod yn gysylltiedig ag amgylchiadau eithafol nad ydynt yn bodoli mwyach roi rywfaint o sicrwydd, ond gallai'r risg y bydd amgylchiadau sy'n peri straen yn ailddigwydd fod yn berthnasol i'r gwerthusiad o'r risg (ac, felly, y gwarediad).

- 2.17 Pedwar mater i'w hystyried wrth benderfynu ar amhariad:

- i) A yw'r person cofrestredig wedi gweithredu mewn modd sy'n peri risg i unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau a/neu a yw'n debygol o wneud hynny yn y dyfodol?
- ii) A yw'r person cofrestredig wedi dwyn anfri ar y proffesiwn a/neu a yw'n debygol o wneud hynny yn y dyfodol?
- iii) A yw wedi gweithredu'n groes i un o ddaliadau sylfaenol y proffesiwn a/neu a yw'n debygol o wneud hynny yn y dyfodol?
- iv) A ellir dibynnu ar ei uniondeb?²

3. GWAREDIADAU

- 3.1 Gall amhariad fod ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer am un neu ragor o'r seiliau a ganlyn:

- a) perfformiad diffygiol fel gweithiwr gofal cymdeithasol;
- b) camymddwyn difrifol (pa un ai fel gweithiwr gofal cymdeithasol neu fel arall);
- c) iechyd corfforol neu iechyd meddwl andwyol;
- d) collfarn neu rybuddiad yn y Deyrnas Unedig am drosedd, neu gollfarn neu rybuddiad yn rhywle arall am dramgwydd a fyddai'n drosedd pe bai wedi ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr;
- e) dyfarniad gan gorff perthnasol³ i'r perwyl bod amhariad ar addasrwydd y person i ymarfer;

² Lluniodd y Fonesig Janet Smith restr o bedwar mater i'w cadw mewn cof wrth ystyried Amhariad, ym mhumed Adroddiad Shipman.

³ Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban, Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon, corff y tu allan i'r Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am reoleiddio gweithgareddau a fyddai, yng Nghymru, yn cael eu rheoleiddio gan Gofal Cymdeithasol Cymru

- f) cynnwys y person ar restr wahardd, fel rhestr a gynhelir o dan adran 2 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006

3.2 Gall perfformiad diffygiol fel gweithiwr gofal cymdeithasol gynnwys:

- a) achos o esgeuluster;
- b) torri ymgymeriad y cytunir arno â Gofal Cymdeithasol Cymru;
- c) torri ymgymeriad y cytunir arno â phanel Addasrwydd i Ymarfer;
- d) methu â chydymffurfio â'r Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol.

3.3 Camymddwyn Difrifol

Ni chaiff 'Camymddwyn difrifol' ei ddiffinio yn y Ddeddf. Fodd bynnag, bu rhai datganiadau barnwrol ar ystyr camymddwyn proffesiynol difrifol fel y bo'n berthnasol i reoleiddwyr eraill. Er enghraifft, yn *Roylance v. General Medical Council (No 2)* [2000] 1 AC 311 at 330-332, meddai'r Arglwydd Clyde, nid yw "camymddwyn proffesiynol difrifol" wedi'i ddiffinio'n statudol ac ni ellir ei ddisgrifio na gosod terfynau manwl arno. Gallai gynnwys nid yn unig gamymddwyn gan feddyg yn ei waith clinigol, ond camymddwyn wrth arfer, neu broffesu i arfer, ei alwedigaeth feddygol mewn cyd-destunau eraill, megis wrth roi tystiolaeth feddygol arbenigol gerbron llys. Fel y gallai'r Arglwydd Clyde fod wedi'i grynhoi yn ei drafodaeth ar y mater yn *Roylance v. General Medical Council*, rhaid iddo fod yn gysylltiedig ag ymarfer meddygaeth neu ymddygiad sydd fel arall yn dwyn anfrï ar y proffesiwn, a rhaid iddo fod yn ddifrifol.

O ran difrifoldeb, roedd Collins J. yn *Nandi v. General Medical Council* [2004] EWHC 2317 (Admin), wedi pwysleisio'n briodol yr angen i roi pwys cywir arno, gan nodi y cyfeiriwyd ato mewn cyd-destunau eraill fel "conduct which would be regarded as deplorable by fellow practitioners."

Gall ymddygiad sydd gryn bellter oddi wrth ymarfer proffesiynol person cofrestredig gael ei ystyried fel camymddwyn difrifol. Yn *A County Council v. W (Disclosure)* [1997] 1 FLR 574, ystyriodd y Llys a oedd cam-drin rhywiol honedig merch gan ei thad, meddyg, yn rhy bellennig oddi wrth ei broffesiwn. Meddai Cazalet J, ar t581: "it seems to me that this doctor can be said, if he had sexually abused his daughter, to have demonstrated conduct disgraceful to him as reflecting on his profession and/or indeed conduct disgraceful to him as a practising doctor."

3.4 Rhestr Wahardd

Mae'n bosibl bod rhai unigolion wedi'u hystyried yn anaddas i weithio gyda phobl hyglwyf ac, felly, fe'u gosodwyd ar restr sy'n eu gwahardd rhag gweithio ym maes gofal cymdeithasol.

Diffinnir rhestr wahardd yn y Ddeddf fel a ganlyn:

- a) rhestr a gynhelir o dan adran 2 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012);
- b) rhestr a gedwir o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Grwpiau Hyglwyf (Yr Alban) 2007 (dsa 14);
- c) rhestr a gynhelir o dan erthygl 6 o Orchymyn Diogelu Grwpiau Hyglwyf (Gogledd Iwerddon) 2007 (o.s. 2007/1351)

3.5 Gwarediadau

Pan ystyrir fo amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer, dyma'r gwarediadau sydd ar gael i'r panel;

- dileu cofnod y person cofrestredig o'r gofrestr drwy gytundeb;
- cytuno ar ymgymeriadau â'r person cofrestredig;
- peidio â chymryd unrhyw gamau pellach;
- rhybudd i'r person cofrestredig mewn cysylltiad ag ymddygiad neu berfformiad yn y dyfodol;
- gorchymyn cofrestru amodol – yn gosod amodau ar gofrestriad y person cofrestredig;
- gorchymyn atal dros dro – atal cofrestriad y person cofrestredig dros dro (gan gynnwys gorchymynion atal dros dro amhenodol);
- gorchymyn dileu – dileu'r cofnod sy'n ymwneud â'r person cofrestredig yn y gofrestr.

Ni chaiff panel osod gorchymyn dileu os iechyd corfforol neu iechyd meddwl andwyol yw unig sail yr amhariad ar addasrwydd y person cofrestredig i ymarfer.

3.5.1 Dileu drwy Gytundeb

Byddai dileu drwy gytundeb ar gael i'r panel pan fo person cofrestredig wedi gwneud cais i'w gofnod ar y gofrestr gael ei ddileu drwy gytundeb ac wedi cytuno ar ddatganiad o ffeithiau.

Pan fo panel o'r farn bod y budd i'r cyhoedd yn mynnu gwrandawriad llawn o'r honiadau, ni ddylid caniatáu dileu drwy gytundeb.

Yn y cyd-destun hwn, dylai'r panel gofio, lle y caiff unigolyn ei ddileu o'r gofrestr drwy gytundeb yn dilyn cais o dan adran 92 y Ddeddf, nid oes unrhyw gyfyngiadau ar allu'r unigolyn hwnnw i wneud cais i adnewyddu ei gofrestriad ar unrhyw adeg. I'r gwrthwyneb, lle y gwneir gorchymyn dileu o dan adran 97 y Ddeddf yn dilyn achos addasrwydd i ymarfer, ni chaiff yr unigolyn wneud cais i'w adfer i'r gofrestr am gyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y gwnaed y gorchymyn. Mae'n dilyn y dylai'r panel ystyried yn ofalus pa un ai a yw dileu drwy gytundeb er budd y cyhoedd lle y byddai ystyried yr achos yn unol â'r gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer yn bosibilrwydd arall.

3.5.2 Ymgymeriadau

Byddai ymgymeriad yn opsiwn i'r panel pan fo person cofrestredig yn cyfaddef bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer.

Pan fo person cofrestredig wedi:

- (a) cyfaddef yr honiad(au);
- (b) llofnodi datganiad o ffeithiau y cytunir arnynt;
- (c) cyfaddef bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer oherwydd y materion a amlinellir yn y datganiad o ffeithiau y cytunir arnynt;
- (d) cytuno i delerau ymgymeriad(au) arfaethedig

ac mae'r panel yn fodlon na fyddai caniatáu ymgymeriad yn groes i fudd y cyhoedd, caiff y panel ganiatáu'r ymgymeriad.

3.5.3 Rhybudd

Gall rhybudd fod ar gael i'r panel, er enghraifft, pan fo person cofrestredig wedi cydweithredu ag ymchwiliad Gofal Cymdeithasol Cymru, wedi cyfaddef y ffeithiau a'r amhariad ac wedi dangos dirnadaeth ac edifeirwch, ac wedi darparu tystiolaeth o gamau unioni a gymerwyd i wella'i ymarfer ers i'r honiadau ddigwydd.

Caiff panel roi rhybudd mewn perthynas ag ymddygiad neu berfformiad y person cofrestredig yn y dyfodol ac, os bydd yn briodol ac yn angenrheidiol, caiff gyfeirio at rannau penodol o'r Côt Ymarfer Proffesiynol ac unrhyw Ganllawiau Ymarfer perthnasol eraill.

3.5.4 Gorchymyn Cofrestru Amodol

Ni chaiff Gorchymyn Cofrestru Amodol fod yn hwy na 3 blynedd (ond gellir estyn y cyfnod hwnnw yn sgil adolygiad).

Gallai amodau fod yn briodol mewn achosion yn ymwneud â meysydd penodol o berfformiad person cofrestredig, er enghraifft yn dilyn digwyddiad unigol, neu lle y bo tystiolaeth o ddiffygion mewn maes neu feysydd penodol o waith y person cofrestredig, ond lle y bo panel yn fodlon ei bod hi'n briodol i unigolyn barhau ar y Gofrestr.

Dylai panel fod yn fodlon bod y person cofrestredig wedi dangos dirnadaeth o'i ffaelectedau, a bod potensial i'r person cofrestredig ymateb yn gadarnhaol i unioni/aillhyfforddiant, asesiad iechyd lle y bo hwnnw'n berthnasol, a/neu i oruchwyllo'i waith.

Diben amodau, er enghraifft, yw galluogi person cofrestredig i unioni unrhyw ddiffygion yn ei waith a, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol, delio â'i faterion iechyd tra'n amddiffyn unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau rhag risg niwed yn y cyfamser. O dan amgylchiadau o'r fath, gallai amodau gynnwys gofynion i ymgymryd â hyfforddiant penodol, e.e. rhaglenni ymwybyddiaeth alcohol neu ennill cymwysterau penodol.

Dylai'r amod(au) fod yn rhai 'SMART':

- **Specific** / Penodol
- **Measurable** / Mesuradwy
- **Achievable** / Cyraeddadwy
- **Realistic** / Realistig
- **Time bound** / Amserol

Er mwyn bod yn **benodol**, dylai'r amod osod gofynion neu gyfyngiadau clir. Rhaid i'r hyn sy'n ofynnol fod yn glir i'r person cofrestredig.

Dylai gorchymyn fod yn **fesuradwy** fel y gellir monitro ac adolygu cydymffurfiaid â'r gorchymyn lle bo'r angen.

Dylai pob amod fod yn **gyraeddadwy**. Ni ddylid gosod unrhyw amodau os bydd cydymffurfio â nhw yn anodd neu annhebygol.

Dylai pob amod fod yn **realistig** gan na ddylent osod gofyniad mwy beichus na'r hyn sy'n ofynnol i amddiffyn y cyhoedd ac unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion eithafol, gellir gosod amodau beichus iawn.

Dylai amodau fod yn **amserol** i sicrhau bod y person cofrestredig yn deall yn glir pryd y dylid cydymffurfio â'r amod. Y person cofrestredig sy'n gyfrifol am gynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig berthnasol o gydymffurfio â'r amodau ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru.

Nid oes terfyn amser wedi'i osod ar hyd amod – y panel fydd yn gyfrifol am osod hynny fesul pob achos unigol, ond dylai'r panel sicrhau bod ei hyd yn realistig.

Wrth lunio amodau priodol, dylai panel ystyried y cwestiynau canlynol hefyd:

- a fydd y person cofrestredig yn gallu cydymffurfio â'r amodau hyn?
- a yw'r amodau yn gymesur ac a ydynt yn cynnig y lefel angenrheidiol o amddiffyniad i'r cyhoedd?
- a fydd modd eu gorfodi os bydd y person cofrestredig yn newid ei gyflogaeth?

Er enghraifft, os yw'r amodau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r person cofrestredig ymgymryd â hyfforddiant penodol, ni ddylid ond gosod yr amodau ar y safon sy'n rhesymol ofynnol o weithiwr ac yn gyraeddadwy gan weithiwr sydd wedi cofrestru yn y rhan honno o'r Gofrestr.

i. A yw'r amodau wedi'u cyfeirio at y person cywir ac yn orfodadwy?

- a yw'r amodau yn gosod rhwymedigaethau yn glir ar y person cofrestredig?
- a oes unrhyw amodau wedi'u cyfeirio ar gam at rywun arall?
- a yw'r amodau o'r fath fel bod modd dyfarnu pryd maent wedi'u bodloni a phryd nad ydynt wedi'u bodloni?

3.5.5 Y person cofrestredig sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r amodau sydd wedi'u gosod ac, wrth ddrafftio amodau, rhaid gofalu peidio â gosod amod yn anfwriadol ar drydydd parti, fel cyflogwr, na fydd yn orfodadwy. Fodd bynnag, dylai'r cyflogwr gefnogi'r person cofrestredig i gyflawni'r amod.

Dylai'r panel ei gwneud hi'n glir mai'r person cofrestredig sy'n gyfrifol am ddod o hyd i ddeunyddiau neu gyrsiau hyfforddi priodol i fodloni'r amodau ac, os bydd angen, dylai'r person cofrestredig dalu amdanynt.

Gallai'r gwarediad hwn fod yn briodol pan fydd y rhan fwyaf o'r ffactorau canlynol, neu'r cyfan ohonynt, yn bresennol (nid yw'r rhestr hon yn derfynol):

- mae'r person cofrestredig yn bresennol ac yn gallu cadarnhau pa un ai a yw amod yn gyraeddadwy ac yn cael ei dderbyn ai peidio;
- mae angen adolygu, ailhyfforddi neu asesu meysydd penodol o ymarfer y person cofrestredig;
- mae tystiolaeth o barodrydd a photensial i ymateb yn gadarnhaol i hyfforddiant ac asesu pellach;
- mewn achosion yn ymwneud ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl andwyol, mae tystiolaeth fod dirnadaeth ddiffuant gan y person cofrestredig o unrhyw broblem iechyd a'i fod yn barod i, ac yn gallu, cadw at amodau yn ymwneud â thrin, monitro neu oruchwylio'r broblem iechyd;
- nid oes tystiolaeth o broblemau personoliaeth neu agwedd dwfn, niweidiol;
- dirnadaeth;
- ni fydd risg uniongyrchol neu anuniongyrchol i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau o ganlyniad i barhau i gofrestru, gydag amodau;
- bydd yr amodau yn amddiffyn unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a'r cyhoedd yn ystod y cyfnod pan fyddant mewn grym.

Gellir cynnull panel i adolygu ac asesu pa un ai a yw'r amodau wedi'u bodloni. Gall y panel adolygu amrywio telerau'r gwarediad neu osod gwarediad gwahanol.

3.5.6 Gorchymyn Atal Dros Dro

Mae atal dros dro o'r Gofrestr yn atal person cofrestredig rhag ymarfer yn ystod y cyfnod atal dros dro. Mae dileu cofnod o'r gofrestr, er am gyfnod cychwynnol o hyd at 12 mis yn unig, yn rhoi neges glir i'r cyhoedd a'r proffesiwn am yr hyn a ystyrir neu nad ystyrir yn ymddygiad neu'n ymarfer priodol i weithiwr gofal cymdeithasol.

Gallai atal dros dro o'r Gofrestr fod yn warediad priodol ar gyfer gweithredoedd sy'n ddifrifol, er nad tua phen mwyaf difrifol y sbectrwm ac nad ydynt mor ddifrifol fel eu bod yn cyfiawnhau dileu cofnod o'r Gofrestr. Er enghraifft, pan fo ffaeleddau wedi'u cydnabod a bo panel yn fodlon bod yr ymddygiad yn annhebygol o gael ei ailadrodd, a phan nad oes gan y person cofrestredig unrhyw anawsterau seicolegol neu anawsterau eraill sy'n ei atal rhag deall a cheisio unioni'r ffaeleddau a gellir unioni'r ffaeleddau yn realistig, yna gallai atal dros dro fod yn briodol.

Rhaid i Orchymyn atal dros dro bennu'r cyfnod y mae'r gorchymyn i gael effaith ar ei gyfer. Gellir atal dros dro am hyd at gyfnod o flwyddyn a phenderfyniad y panel fydd ei hyd, gan ystyried holl amgylchiadau'r achos penodol.

Caiff y gorchymyn atal dros dro ddatgan bod rhaid ei adolygu yn unol â'r trefniadau a bennir ynddo.

Gall atal dros dro fod yn briodol pan fydd rhai o'r ffactorau canlynol, neu bob un ohonynt, i'w gweld (nid yw'r rhestr hon yn derfynol):

- camymddwyn difrifol lle y bo amhariad ar briodoldeb a lle nad yw gwarediad llai yn ddigonol, ond nad yw dileu yn gyfiawnadwy;
- nid yw'r ymddygiad yn anghydnaws yn sylfaenol â pharhau i fod yn weithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig yn y tymor hir;
- mae atal dros dro yn amddiffyn buddiannau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a'r cyhoedd yn ddigonol;
- nid oes risg gwirioneddol o ailadrodd yr ymddygiad;
- nid oes tystiolaeth o broblemau personoliaeth neu agwedd dwfn, niweidiol;
- nid oes tystiolaeth bod yr ymddygiad wedi'i ailadrodd ers y digwyddiad/digwyddiadau;
- dirnadaeth;
- pan fo'r dystiolaeth yn dangos y bydd y person cofrestredig yn gallu datrys neu unioni'r rheswm dros yr amhariad yn ystod y cyfnod atal dros dro.

Pan fo amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer oherwydd iechyd corfforol neu iechyd meddwl andwyol ac nid ar unrhyw sail arall, nid yw gorchymyn dileu yn opsiwn sy'n bodoli. Gall gorchymyn atal dros dro fod yn briodol pan fo iechyd y person cofrestredig o'r fath fel na all y person cofrestredig ymarfer yn ddiogel hyd yn oed o dan amodau. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y bydd panel yn dymuno cyfarwyddo gwrandawriad adolygu ynghylch a yw'r person cofrestredig yna'n addas i ailgychwyn ymarfer naill ai o dan amodau neu heb gyfyngiad.

3.6 Dileu

Dyma'r gwarediad mwyaf difrifol y gall panel ei osod. Ni chaiff y panel wneud gorchymyn dileu os yr unig sail y mae panel wedi dyfarnu bod amhariad ar addasrwydd y person cofrestredig i ymarfer arni yw iechyd corfforol neu iechyd meddwl andwyol.⁴

⁴ Adran 138(10) y Ddeddf

Mae'r gwarediad hwn yn debygol o fod yn briodol pan fydd ymddygiad y person cofrestredig yn anghydnaws yn sylfaenol â bod yn berson cofrestredig a gallai gynnwys unrhyw rai o'r canlynol (nid yw'r rhestr hon yn derfynol):

- gwneud niwed difrifol i eraill (unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau neu fel arall), naill ai'n fwiadol neu trwy esgeulustod difrifol ac yn enwedig pan fo risg barhaus i ddefnyddwyr gwasanaethau;
- manteisio ar swydd/ffydd (yn enwedig yn gysylltiedig ag unigolion agored i niwed sy'n defnyddio gwasanaethau) neu ymyrryd â hawliau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau;
- anonestrwydd (yn enwedig lle y bo'n gyson neu'n cael ei gelu);
- diffyg dirnadaeth yn gyson i ddifrifoldeb gweithredoedd neu ganlyniadau;
- diystyried yn amlwg y safonau proffesiynol perthnasol sydd wedi'u cyflwyno yn y Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol neu wro'n ddifrifol rhagddynt.

3.6.1 Dylid defnyddio dileu lle nad oes ffordd arall o amddiffyn y cyhoedd, er enghraifft, lle y bo diffyg dirnadaeth, problemau parhaus a phatrwm o ymddygiad annerbyniol neu wadu ac nid oes tystiolaeth fod unioni boddhaol yn debygol, a lle y byddai hyder ym mhroffesiwn y gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei danseilio trwy ganiatáu i'r person cofrestredig barhau ar y Gofrestr.

4. GWRANDAWIADAU ADOLYGU

4.1 Mae'r gallu gan y panel Addasrwydd i Ymarfer i adolygu gwarediad a wnaed gan banel blaenorol.

Rhaid i'r panel ystyried, ar sail y dystiolaeth a gyflwynir gan y partion, pa un ai a oes amhariad o hyd ar addasrwydd y person cofrestredig i ymarfer a pha un ai a yw'r gwarediad a wnaed gan y panel blaenorol yn berthnasol, yn angenrheidiol ac yn gymesur o hyd.

4.2 Dylai panel ystyried yr enghreifftiau o amhariad yn adran 5, isod, wrth ddod i'w benderfyniad.

5. ENGHREIFFTIAU O AMHARIAD YN BERTHNASOL I WAREDU

5.1 Caiff panel ystyried yr enghreifftiau o amhariad yn yr adran hon wrth ddod i'w benderfyniad (nid yw'r rhain yn derfynol).

Achosion o natur rywiol

5.2 Mae hyn yn cwmpasu amrywiaeth eang o ymddygiad a gall gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i: gollfarnau troseddol am ymosod yn rhywiol a cham-drin plant yn rhywiol (gan gynnwys troseddau'n ymwneud â delweddau anwedus o blant), camymddwyn rhywiol gydag unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, ei ofalwyr neu ei berthnasau, neu gyda chydweithwyr.

Mae'r ymddygiad yn arbennig o ddifrifol, fodd bynnag, pan fydd person cofrestredig yn manteisio ar y ffydd arbennig ynddo, neu pan fo person cofrestredig wedi bod yn destun gofynion hysbysu fel troseddwr rhyw.

- 5.3 Mae'r risg i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau ac i'r cyhoedd yn ystyriaeth bwysig. Mewn achosion o'r fath, mae'n debygol mai dileu o'r Gofrestr fydd y gosb briodol er mwyn cynnal hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau cymdeithasol.

Troseddwy'r rhyw a throseddau'n ymwneud â delweddau anwedus o blant

- 5.4 Dylai panel ystyried yr effaith ddifrifol y mae parhau i gofrestru pobl a gafwyd yn euog o droseddau rhyw yn ei chael ar y cyhoedd ac ar unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau. Bydd troseddwy'r o'r fath yn cynnwys pobl sy'n 'droseddwy'r rhyw cofrestredig'. Gall parhau i gofrestru pobl a gafwyd yn euog o droseddau rhyw a/neu droseddwy'r rhyw cofrestredig danseilio ffydd y cyhoedd yn ddifrifol.
- 5.5 Pan fyddant yn dyfarnu ar y gosb briodol mewn achosion o'r fath, mae angen i baneli fod yn ymwybodol bod y Llys Apêl (yn *R v Oliver* [2003] 1 Cr. App. R. 463) wedi sefydlu prawf ar gyfer dyfarnu difrifoldeb troseddau yn ymwneud â lawrlwytho delweddau anwedus o blant o'r rhyngwyd gan ystyried (1) natur y gweithgarwch a wnaed a (2) natur y delweddau cysylltiedig. O ran natur y gweithgarwch, mae angen ystyried:
- agosrwydd at y cam-drin gwreiddiol a chyfrifoldeb amdano;
 - mae tynnu'r lluniau gwreiddiol yn fwy difrifol na lawrlwytho delweddau sydd, yn ei dro, yn fwy difrifol na dim ond dod o hyd i leoliad delweddau ar y rhyngwyd; ac
 - unrhyw elfen o elw masnachol neu weithgarwch sydd, er nad yw er elw, yn tanio galw am ddelweddau o'r fath (e.e. cyfnewid deunydd).

O ran natur y delweddau, rydym yn defnyddio Canllawiau'r Cyngor Dedfrydu ar Feddu ar ffotograff anwedus o blentyn/ffotograffau anwedus o blant. Mae'r rhain yn dosbarthu'r delweddau fel a ganlyn:

- Categori A: Meddu ar ddelweddau'n ymwneud â gweithgarwch rhywiol treiddiol. Meddu ar ddelweddau'n ymwneud â gweithgarwch rhywiol gydag anifail neu sadistiaeth.
 - Categori B: Meddu ar ddelweddau'n ymwneud â gweithgarwch rhywiol nad yw'n treiddio.
 - Categori C: Meddu ar ddelweddau anwedus eraill nad ydynt yn perthyn i gategoriâu A neu B.
- 5.6 Mewn achosion yn ymwneud â delweddau anwedus o blant, dylai paneli sicrhau eu bod yn ystyried arweiniad priodol meini prawf *Oliver*. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru o'r farn bod rhyw raddau o gam-fanteisio ar blentyn neu gam-drin plentyn ynghlwm wrth bob achos yn ymwneud â delweddau anwedus o blant a bod gwyllo, lawrlwytho neu atgynhyrchu delweddau o'r fath yn creu galw pellach amdanynt. Felly, bydd unrhyw gollfarn am drosedd o'r fath yn cael ei hystyried yn fater difrifol a allai danseilio ffydd mewn person cofrestredig a'r proffesiwn. Mewn achosion o'r fath, gallai panel ddod i'r casgliad bod dileu o'r Gofrestr yn gosb briodol a chymesur.

Anonstrwydd

- 5.7 Mae Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol yn datgan bod yn rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol fod yn onest ac yn deilwng o ymddiriedaeth (adran 2.1) a, rhaid iddynt gydnabod a defnyddio'n gyfrifol y pŵer a ddaw o'u gwaith gydag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, a gofalwyr (adran 3.4). Mae graddfa anonestrwydd ac mae angen i baneli gadw mewn cof sut maent wedi graddio'r anonestrwydd ym mhob achos

penodol ac ym mhob cam yr achos yn arwain at y gwarediad. Mae angen iddynt sicrhau bod y gwarediad yn adlewyrchu eu penderfyniad ynghylch safle'r ymddygiad anonest ar y raddfa.

- 5.8 Mae anonestrwydd yn arbennig o ddifrifol oherwydd gall danseilio ffydd mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Gallai enghreifftiau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- ddwyn, twyll neu embeslo;
- dweud celwydd wrth unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau;
- dweud celwydd wrth reolwr neu gydweithiwr, er enghraifft ynghylch a gyflawnwyd tasg waith ai peidio;
- diwygio cofnodion yn ymwneud ag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, yn amhriodol;
- ffugio tystiolaeth neu gyflwyno neu ddarparu geiradaon a gwybodaeth ffug mewn cais am swydd.

Rhaid i'r cyhoedd allu dibynnu'n llwyr ar uniondeb personau cofrestredig.

- 5.9 Mae 'camymddwyn o ran ymchwil' yn enghraifft o anonestrwydd. Defnyddir yr ymadrodd hwn i ddisgrifio amrywiaeth o gamymddwyn, er enghraifft, cyflwyno gwybodaeth gamarweiniol mewn cyhoeddiadau. Mae ymddygiad o'r fath yn tansilio'r ffydd sydd gan y cyhoedd a'r proffesiwn mewn gwaith gofal cymdeithasol, ni waeth a yw hwn yn arwain at niwed uniongyrchol i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, ai peidio. Oherwydd bod y potensial i'w ganlyniadau fod yn bellgyrhaeddol, mae'r math hwn o anonestrwydd yn ddifrifol.
- 5.10 Mae hawl gan unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, cyflogwyr, cydweithwyr ac eraill ddibynnu ar uniondeb proffesiynol gweithwyr gofal cymdeithasol. Weithiau, gwneir dewisiadau yn ymwneud â'r opsiynau sydd ar gael i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a phenderfyniadau ariannol arwyddocaol, sy'n newid bywyd, ar sail nid yn unig sgiliau'r personau cofrestredig ond hefyd ei onestrwydd. Mae anonestrwydd, yn enwedig pan fydd yn gysylltiedig ag ymarfer proffesiynol, mor niweidiol i addasrwydd person cofrestredig ac i hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol, fel y gellir ystyried mai dileu yw'r gosb briodol.

Methu â darparu lefel dderbyniol o ofal

- 5.11 Yr achosion yn y categori hwn yw'r achosion lle nad yw person cofrestredig wedi gweithredu er budd pennaf unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau ac mae wedi methu â darparu lefel ddigonol o ofal, gan weithredu ymhell islaw safonau disgwylidiedig. Er enghraifft, rheolwr cartref gofal i oedolion sydd wedi'i gyhuddo o fethu ag atgyfeirio er Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed⁵, neu reolwr neu weithiwr sydd wedi'i gyhuddo o dwyll, dwyn neu gamdriniaeth gorfforol a/neu feddyliol unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau.

Ystyriaeth arbennig o bwysig mewn achosion o'r fath yw pa un ai a yw'r gweithiwr gofal cymdeithasol wedi datblygu dirnadaeth i'r methiannau hyn ai peidio, neu a oes ganddo'r potensial i wneud. Lle y bo tystiolaeth o ddirnadaeth, mae'n debygol y gallai gwarediad llai fod yn briodol neu'n ddigonol.

⁵ Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed – POVA

Enghreifftiau eraill o fanteisio ar swydd/ffydd (yn enwedig yn ymwneud ag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau neu ymyrryd â hawliau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau

- 5.12 Mae gwaith gofal cymdeithasol yn dibynnu ar fodolaeth perthynas broffesiynol agos mewn amgylchiadau lle nad oes gan unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau unrhyw ddewis ond ymddiried.

Mae unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau yn dibynnu ar ddibynadwyedd y gweithiwr proffesiynol, y mae ganddynt hawl iddo oherwydd hyfforddiant a chofrestriad y person cofrestredig. Mae gan unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau'r hawl i gael eu hamddiffyn rhag gweithiwr gofal cymdeithasol sy'n manteisio'n ddifrifol ar y ffydd a roddir ynddo, nid yn unig at ddibenion rhywiol, fel y cyfeirir ato uchod, ond hefyd er budd ariannol neu at ryw ddiben arall sy'n groes i fuddiannau'r unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae angen i weithwyr gofal cymdeithasol sefydlu a chynnal ffiniau proffesiynol.

Enghreifftiau difrifol eraill o fanteisio ar statws breintiedig gweithwyr proffesiynol cofrestredig

- 5.13 Yn ogystal â'r cyfrifoldebau a ddaw gyda'r berthynas ag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, mae gan bersonau cofrestredig freintiau eraill y mae cymdeithas wedi'u rhoi iddynt ar yr amod y byddant yn cael eu defnyddio'n gyfrifol ac at ddibenion proffesiynol dilys. Dylai gweithiwr gofal cymdeithasol sy'n manteisio ar y ffydd a roddir ynddo fforffedu'r breintiau a ddaw gyda chofrestru.

Amhariad wedi'i achosi gan berfformiad diffygiol fel gweithiwr gofal cymdeithasol, i'r graddau ag y bo'n bwrw amheuaeth ar allu parhaus y gweithiwr i ymarfer yn ddiogel

- 5.14 Mae ymrwymiad i ddatblygu gwybodaeth a chymhwysedd cyfredol yn barhaus yn agwedd hanfodol ar weithiwr gofal cymdeithasol. Dylai Panel ystyried pa un ai a ddylai person cofrestredig, y profwyd iddo esgeuluso'r cyfrifoldeb hwn, barhau ar y Gofrestr.

Ymddygiad sy'n anghydnaws yn ei hanfod â chofrestriad proffesiynol

- 5.15 Mae ymddygiad person cofrestredig neu ei agweddau yn amlygu ei fod yn anaddas i fod yn aelod o broffesiwn gofalgar a chyfrifol. Gallai diystyru diogelwch, hawliau ac urddas pobl eraill yn ddifrifol neu'n gyson, neu ymddygiad troseddol difrifol fel ymddygiad treisgar, fod yn dystiolaeth o'r broblem hon.

RHAN II:

GORCHMYNION INTERIM – A OSODIR AC A ADOLYGIR GAN Y PANEL GORCHMYNION INTERIM NEU'R PANEL ADDASRWYDD I YMARFER

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mewn rhai achosion, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ceisio Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu Orchymyn Cofrestru Amodol Interim gan banel Gorchymynion Interim (o dan Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gorchymynion Interim) 2017) neu Orchymyn Atal Dros Dro Interim gan banel Addasrwydd i Ymarfer (o dan Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiaadau Addasrwydd i Ymarfer) 2017. Lluniwyd y rhan hon o'r ddogfen i gynorthwyo'r paneli i wneud penderfyniadau ynghylch gosod gorchymynion o'r fath.
- 1.2 Y nod yw hybu cysondeb a thryloywder yn y broses benderfynu. Mae'r profion cyfreithiol i'w cymhwyso, a'r egwyddorion a'r ffactorau y dylai'r paneli eu hystyried wrth ddod i'w penderfyniadau ar osod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu Orchymyn Cofrestru Amodol Interim, wedi'u cyflwyno isod.

Gorchymyn Atal Dros Dro Interim

- 1.3 Mae Gorchymyn Atal Dros Dro Interim yn Orchymyn sy'n atal dros dro berson cofrestredig o'r Gofrestr, heb ragfarn, tra bo ymchwiliad neu wrandawriad terfynol yn mynd rhagddo, ac felly'n atal y person cofrestredig rhag gweithio yn y rhinwedd hwnnw.

Gall Gorchymyn Atal Dros Dro Interim gael ei osod am hyd at uchafswm o 18 mis. Rhaid adolygu'r Gorchymyn bob chwe mis. Gall y naill barti neu'r llall wneud cais am adolygiad o'r Gorchymyn Atal Dros Dro Interim ar unrhyw adeg yn ystod y broses. Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru wneud cais i'r Tribiwnlys Safonau Gofal i ymestyn Gorchymyn neu i'w ymestyn ymhellach.

Gall person cofrestredig fynychu gwrandawriad panel sy'n ystyried gosod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim a gall gael ei gynrychioli a galw tystion a chroesholi tystion Gofal Cymdeithasol Cymru (os oes rhai).

Gorchymyn Cofrestru Amodol Interim

- 1.4 Mae Gorchymyn Cofrestru Amodol Interim yn Orchymyn sy'n gosod amodau dros dro ar gofrestrriad person cofrestredig tra bo ymchwiliad yn mynd rhagddo.

Yn yr un modd â Gorchymyn Atal Dros Dro Interim, gall y Gorchymyn bara am hyd at 18 mis, gyda chyfnodau adolygu penodedig, gyda'r opsiwn i Ofal Cymdeithasol Cymru ymestyn y Gorchymyn neu ei ymestyn ymhellach trwy wneud cais i'r Tribiwnlys Safonau Gofal.

Caiff person cofrestredig ei wahodd i fynychu'r panel Gorchymynion Interim pan fydd yn ystyried gosod Gorchymyn Cofrestru Amodol Interim, a gall gael ei gynrychioli a galw tystion a chroesholi tystion Gofal Cymdeithasol Cymru (os oes rhai).

- 1.5 Yr un yw'r broses ar gyfer gosod ac adolygu Gorchymyn Cofrestru Amodol Interim ag ar gyfer Gorchymyn Atal Dros Dro Interim e.e. gall y person cofrestredig fod yn bresennol a chael ei gynrychioli pan fydd y panel yn ystyried y Gorchymyn hwn.
- 1.6 Mae'r mathau o amodau y gellid eu gosod yn cynnwys:
- rhaid i'r person cofrestredig ymgymryd â hyfforddiant penodol o fewn cyfnod diffiniedig a darparu tystiolaeth i Ofal Cymdeithasol Cymru ei fod wedi cwblhau'r hyfforddiant hwnnw'n llwyddiannus.

Y profion cyfreithiol i'w cymhwyso

- 1.7 Caiff panel Gorchymynion Interim, neu banel Addasrwydd i Ymarfer (yn achos Gorchymyn Atal Dros Dro Interim), osod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu Orchymyn Cofrestru Amodol Interim os yw wedi'i fodloni bod gorchymyn o'r fath:
- (a) yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn aelodau'r cyhoedd, neu
 - (b) ei fod fel arall er budd y cyhoedd, neu
 - (c) ei fod er budd y person cofrestredig.
- 1.8 Wrth wneud penderfyniad ar Orchymyn Atal Dros Dro Interim neu Orchymyn Cofrestru Amodol Interim, mae'r panel Gorchymynion Interim neu'r panel Addasrwydd i Ymarfer yn gwneud y penderfyniad hwnnw ar sail y dystiolaeth gerbron y panel. Ar sail y dystiolaeth ger ei fron, dylai'r panel ystyried y risg o niwed i'r cyhoedd, yn enwedig i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, a/neu i'r person cofrestredig os na osodir y Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu'r Gorchymyn Cofrestru Amodol Interim.

Y budd i'r cyhoedd

- 1.9 Mae awdurdod barnwrol clir bod y budd i'r cyhoedd yn cynnwys:
- (a) Amddiffyn aelodau'r cyhoedd.
 - (b) Cynnal hyder y cyhoedd mewn gweithwyr gofal cymdeithasol ac yn y proffesiwn yn ei gyfanrwydd.
 - (c) Datgan a chynnal safonau ymddygiad a chymhwysedd priodol.
- 1.10 Dylai'r panel Gorchymynion Interim neu'r panel Addasrwydd i Ymarfer gyfrif am y ffaith y dylai'r cyhoedd fod â hyder yng Ngofal Cymdeithasol Cymru fel rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gydag ef trwy gynnal safonau ymddygiad priodol.

Mae'r budd i'r cyhoedd yn ei gwneud hi'n ofynnol bod y cyhoedd ac unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau'n cael eu hamddiffyn rhag ymddygiad neu ymarfer anniogel a bod yr hyder hwnnw ym mhroffesiwn gwaith gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol yn gyffredinol yn cael ei gynnal.

Rhan o rôl Gofal Cymdeithasol Cymru yw cynnal safonau ac amddiffyn y cyhoedd rhag risg ymddygiad neu ymarfer gan bersonau cofrestredig sy'n anghymwys neu nad ydynt yn addas i ymarfer am unrhyw reswm, boed cymhwysedd, cymeriad neu ymddygiad.

Tegwch

- 1.11 Mae dyletswydd ar y panel Gorchmynion Interim neu'r panel Addasrwydd i Ymarfer i weithredu'n deg ac yn unol â'r Rheolau a'r Ddeddf ac i ystyried Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol wrth ddod i benderfyniad ar osod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu Orchymyn Cofrestru Amodol Interim. Mewn unrhyw achos penodol, ni fydd panel sy'n ystyried cais am orchymyn interim yna'n ymdrin â'r achos addasrwydd i ymarfer; bydd hwn yn cynnwys panel gwahanol.

Nid yw'r hyn y mae safonau tegwch yn gyfystyr ag ef mewn unrhyw achos yn sefydlog, oherwydd gall newid gydag amser a bydd yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos.

Cymesuredd

- 1.12 Mae egwyddor cymesuredd yn ei gwneud hi'n ofynnol nad yw canlyniadau'r Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu'r Gorchymyn Cofrestru Amodol Interim a osodir yn anghymesur â'r risg o niwed y bwriedir i'r Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu'r Gorchymyn Cofrestru Amodol Interim amddiffyn y cyhoedd a'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau rhagddi. Felly, mae ar Orchymyn Atal Dros Dro Interim neu Orchymyn Cofrestru Amodol Interim angen ymateb cymesur i'r amhariad honedig a'r risg a grëir gan yr amhariad hwnnw.
- 1.13 Rhaid pwysu a mesur budd y cyhoedd a'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau yn erbyn budd y person cofrestredig. Wrth wneud hyn, bydd angen i'r paneli ystyried effaith ddifrifol bosibl Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu Orchymyn Cofrestru Amodol Interim ar y person cofrestredig yn ariannol ac yn broffesiynol.

Hefyd, bydd angen i'r panel ystyried y budd ehangach i'r cyhoedd sydd i'w gyflawni trwy osod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu Orchymyn Cofrestru Amodol Interim. Wrth ddod i'w benderfyniad, ni ddylai panel fod yn ystyried unigolyn penodol sy'n defnyddio gwasanaethau neu grŵp o unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau yn unig.

2. EGWYDDORION CYFFREDINOL I'W HYSTYRIED

- 2.1 Bydd y penderfyniad ynghylch pa un ai i osod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu Orchymyn Cofrestru Amodol Interim ai peidio yn dibynnu ar amgylchiadau a honiadau penodol pob achos. Fodd bynnag, mae'r canlynol yn ffactorau perthnasol y mae'n rhaid i'r paneli eu hystyried wrth ddod i benderfyniad:
- difrifoldeb yr honiad/honiadau;
 - pa mor debygol yw hi i'r amhariad honedig gael ei ailadrodd cyn dyfarniad terfynol yr achos;
 - difrifoldeb y niwed neu'r risg o niwed pe bai'r amhariad honedig yn cael ei ailadrodd;
 - yr effaith ar hyder y cyhoedd yn uniondeb rheoleiddio'r proffesiwn gofal cymdeithasol;
 - y camau eraill y gellid eu cymryd i amddiffyn yn erbyn risg y niwed;
 - hanes cyflogaeth a chymeriad blaenorol y person cofrestredig;
 - y caledi y gallai Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu Orchymyn Cofrestru Amodol Interim ei achosi i berson cofrestredig;
 - y sicrwydd y gallai darpar gyflogwr neu unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau ei ddwyn ynghylch cymhwysedd, ymddygiad a chymeriad da'r person cofrestredig pe bai'r person cofrestredig yn parhau ar y Gofrestr.

Engbrefftau o amhariadau honedig i'w hystyried wrth asesu niwed wrth ystyried gosod Gorchymyn Interim

2.2 Oherwydd un o'r prif ffactorau y mae'n ofynnol i banel ei ystyried yw'r asesiad o niwed neu risg o niwed i unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau a/neu i'r cyhoedd, dylai'r panel ystyried yn benodol ddirifoldeb y mathau canlynol o ymddygiad honedig:

- honiad/au o berthynas amhriodol gydag unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau;
- honiad/au o droseddau rhywiol neu dreisgar neu droseddau anwedduster;
- honiadau o gamddefnyddio alcohol a/neu gyffuriau;
- honiadau o anonestrwydd;
- unrhyw gollfarnau yn gysylltiedig â'r uchod;
- honiadau o ymarfer gwael yn gyson, gan gynnwys cadw cofnodion yn wael dros gyfnod, fel arfer yn ymwneud â nifer o achosion gwahanol;
- graddfa amser: pryd ddigwyddodd yr ymddygiad honedig ac a fyddai gosod gorchymyn fwy nag ychydig fisoedd ar ôl y digwyddiad yn angenrheidiol neu'n briodol.

3. PENDERFYNIAD

3.1 Pan fo panel yn fodlon, yn holl amgylchiadau'r achos:

- y gallai fod ymddygiad sy'n peri risg wirioneddol i'r cyhoedd, a allai fel arall effeithio'n andwyol ar y budd i'r cyhoedd a/neu fuddiannau'r person cofrestredig; ac
- ar ôl cydbwysu buddiannau'r person cofrestredig a'r cyhoedd, bod angen y Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu'r Gorchymyn Cofrestru Amodol Interim i amddiffyn rhag y risg honno,

dylai'r panel osod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu Orchymyn Cofrestru Amodol Interim. Wrth wneud hynny, dylai'r panel ystyried y profion cyfreithiol i'w cymhwyso fel y'u hamlinellir yn Adran 1 (uchod) a'r egwyddorion cyffredinol a amlinellir yn Adran 2 (uchod).

Rhesymau

3.2 Rhaid i'r panel roi rhesymau dros osod y Gorchymyn penodol ym mhob achos. Rhaid i'r rhesymau fod yn ddigonol a chaniatáu i berson cofrestredig ddeall pam mae'r Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu'r Gorchymyn Cofrestru Amodol Interim wedi'i osod.

3.3 Dylai'r rhesymau ddangos pam yr ystyrir bod y penderfyniad a wnaed gan y panel yn gymesur yn yr holl amgylchiadau. Trwy gyflwyno rhesymau dealladwy a digonol, bydd y person cofrestredig, Gofal Cymdeithasol Cymru, y cyhoedd ac unrhyw berson a roddodd dystiolaeth i'r panel yn gallu gweld a deall pam y daethpwyd i benderfyniad penodol.

3.4 Oherwydd bod hawl gan y person cofrestredig i apelio i Dribiwnlys Haen Gyntaf (Safonau Gofal), bydd esboniad llawn o'r rhesymau dros y penderfyniad yn cynorthwyo'r person cofrestredig i benderfynu pa un ai i arfer ei hawl i apelio ai peidio ac, os bydd yr hawl honno'n cael ei harfer, bydd yn helpu'r Tribiwnlys wrth ddyfarnu ar unrhyw apêl o'r fath.

3.5 Dylai'r rhesymau dros benderfyniad panel ymdrin â:

- sail ffeithiol y penderfyniad;
- sail gyfreithiol y penderfyniad;

- y casgliadau y daethpwyd iddynt ar y prif faterion dadleuol pwysig;
- cadarnhad neu beidio fod y panel wedi derbyn unrhyw gyngor cyfreithiol a roddwyd iddo gan y Cyngorydd Cyfreithiol (a bydd esboniad llawn iawn yn ofynnol lle y bo panel wedi penderfynu peidio â derbyn cyngor y Cyngorydd Cyfreithiol);
- casgliadau'r panel ynghylch y cyflwyniadau a wnaed iddo gan y partiön neu eu cynrychiolwyr;
- y rhesymau dros osod y Gorchymyn Atal Dros Dro Interim neu'r Gorchymyn Cofrestru Amodol Interim, gan esbonio i ba raddau yr ystyriwyd y canllawiau hyn, a ddilynwyd y canllawiau, ac os na chawsant eu dilyn, pam hynny.